
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

# GWASANAETH DEINTYDDOL BRYS



**Dylech gysylltu â'ch practis/clinig deintyddol yn ystod oriau agor arferol os oes angen triniaeth ddeintyddol frys arnoch.**

**Os oes angen triniaeth ddeintyddol frys arnoch y tu allan i oriau agor arferol eich deintydd neu os nad oes gennych ddeintydd, cysylltwch â GIG Cymru 111 i gael eich brysbennu a chyngor.**

Pan fydd GIG Cymru 111 wedi eich brysbennu, efallai y byddant yn rhoi cyfeirnod a rhif ffôn i chi ar gyfer Llinell Gymorth Ddeintyddol Gogledd Cymru. Bydd tîm o nyrsys deintyddol wrth law i helpu gyda'ch anghenion deintyddol a gallant gynnig apwyntiad gyda deintydd mor agos i'ch cartref â phosibl. Efallai na fydd yr apwyntiad ar yr un diwrnod.

Mae Llinell Gymorth Deintyddol Gogledd Cymru yn brysur iawn ac efallai y byddwch yn cael anhawster cael mynediad at y gwasanaeth. Mae galwadau'n cymryd 10-20 munud i'w cwblhau. Mae'r alwad bob amser yn cael ei hateb gyda neges wedi'i recordio. Gofynnwn i chi wrando ar yr holl gyfarwyddiadau yn llawn er mwyn cyrraedd nyrs ddeintyddol y gwasanaeth brysbennu.

**Sylwer: mae'r clinigau deintyddol brys yn gweithredu drwy wasanaeth apwyntiad yn unig.**

**Peidiwch â mynychu unrhyw glinigau deintyddol brys heb apwyntiad, gan na fyddwch yn cael eich gweld.**

## Problemau deintyddol brys yw'r rhai na allant aros am ofal deintyddol arferol.

**Maent yn cynnwys:**

- Heintiau deintyddol a heintiau'r meinwe meddal neu chwydd yn yr wyneb neu'r geg nad yw'n lledaenu ar draws y gwddf neu tuag at y llygad a lle nad ydych yn teimlo'n sâl.
- Wlserau'r geg, lympiau neu ddoluriau sydd wedi bod gennych ers dros 3 wythnos.
- Gwaedu yn dilyn triniaeth ddeintyddol na ellir ei reoli gartref.
- Ail ddant sydd wedi torri ac sy'n achosi poen difrifol nad yw'n gwella gyda chyffuriau lladd poen.
- Poen difrifol na ellir ei reoli yn y dannedd a'r wyneb - dannodd gyson neu boen o'r geg nad yw'n gwella gyda chyffuriau lladd poen

**Mae cyflyrau deintyddol nad ydynt yn rhai brys yn cynnwys:**

- Poen sy'n ymateb i fesurau lleddfu poen
- Mân drawma deintyddol
- Gwaedu ar ôl tynnu dant y gall y claf ei reoli gan ddefnyddio mesurau hunanofal
- Coronau sy'n rhydd neu wedi symud o'u lle, pontydd neu argaenau, dannedd gosod wedi torri neu lacio neu declynnau eraill
- Pyst sy'n cynnal coronau wedi torri
- Llenwadau sydd wedi torri, yn rhydd neu wedi symud o'u lle
- Triniaethau sydd fel arfer yn gysylltiedig â gofal deintyddol arferol
- Gwaedu o gig y dannedd

**Os nad yw eich cyflwr yn un brys dylech geisio gofal arferol drwy law eich deintydd eich hun. Efallai bod rhai cyflyrau nad ydynt yn rhai brys y gellir eu trin trwy hunanofal.**

SGANIWCH YMA

**Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau deintyddol ar gael ar ein gwefan.**